



Sut i wneud a chofrestru atwrneiaeth

Gall y canllaw hwn eich helpu i wneud y canlynol:

- deall beth yw atwrneiaeth ar gyfer eich eiddo a'ch materion ariannol
- gwneud a chofrestru atwrneiaeth
- dewis eich atwrnai/atwrneiod
- terfynu neu wneud newidiadau i'ch atwrneiaeth.

Wrthi'n eich helpu i reoli eich arian heddiw ac ar gyfer y dyfodol

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gymorth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, tor-perthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau neu bryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: moneyhelper.org.uk/cy

Canllawiau diduedd am ddim
ar-lein | dros y ffôn

Darparwyd gan



Cynnwys

Beth yw atwrneiaeth?	2
Dewis rhywun i fod yn atwrnai i chi	4
Beth os na allaf fforddio atwrneiaeth?	6
Gwneud atwrneiaeth arhosol yng Nghymru a Lloegr	7
Gwneud a chofrestru atwrneiaeth barhaus yn yr Alban	8
Gwneud a chofrestru atwrneiaeth barhaus yng Ngogledd Iwerddon	9
Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflenni'n gywir	10
Sefydlu atwrneiaeth arferol (cyffredinol).	11
Sut i gadw rheolaeth ar eich atwrneiaeth	12
Beth i'w wneud ag atwrneiaeth	14
Gwneud newidiadau i'ch atwrneiaeth	15
Beth i'w wneud os ydych chi'n cael problemau gydag atwrnai	17
Cysylltiadau defnyddiol	20

Beth yw atwrneiaeth?

Mae atwrneiaeth yn ddogfen gyfreithiol sy'n caniatáu i un neu fwy o bobl reoli:

- eich arian a'ch eiddo, a/neu
- eich iechyd a'ch lles.
Gweler gov.uk/lasting-power-attorney-duties/health-welfare

Yn y canllaw hwn, rydym yn canolbwyntio ar yr atwrneiaeth ar gyfer eiddo a materion ariannol yn unig.

Mathau o atwrneiaeth

Mae gan atwrneiaeth enwau gwahanol yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw:

- **Atwrneiaeth arhosol** yng Nghymru a Lloegr. Cyn mis Hydref 2007, fe'i galwyd yn atwrneiaeth barhaus. Mae'r hen fath hwn o bŵer yn dal yn ddilys ond ni ellir ei greu mwyach.
- **Atwrneiaeth barhaus ac atwrneiaeth gyfunol** yn Yr Alban.
- **Atwrneiaeth barhaol** yng Ngogledd Iwerddon.

Os byddwch chi'n symud o un wlad yn y DU i un arall, mae eich atwrneiaeth yn dal yn ddilys, er efallai na fydd rhai sefydliadau'n ei derbyn heb gamau pellach cymhleth. Ystyriwch sefydlu atwrneiaeth newydd tra byddwch chi'n dal i allu gwneud hynny, neu ceisiwch gyngor cyfreithiol.

Gallwch hefyd ganiatáu i rywun arall reoli'ch materion ariannol am gyfnod dros dro. Gelwir hyn yn **atwrneiaeth gyffredin (neu gyffredinol)** Dim ond os oes gennych alluedd meddyliol y mae'n ddilys (gweler t11).

Beth all atwrneiaeth ei wneud?

Gelwir y person sy'n gwneud yr atwrneiaeth yn **rhoddwr**. Gelwir y person a ddewisir i weithredu ar ei ran yn **atwrnai**.

Os byddwch yn gwneud atwrneiaeth, mae'n rhaid i'r twrnai neu'r twrneiod rydych wedi'u penodi weithredu er eich budd gorau o ran:

- sefyllfaoedd dros dro – er enghraifft, os oes gennych salwch corfforol, anaf, neu os ydych chi dramor
- sefyllfaoedd tymor hwy – fel y gall atwrnai gamu i mewn os byddwch yn colli'r galluedd meddyliol i wneud eich penderfyniadau eich hun yn y dyfodol.

Gall atwrnai gael mynediad at eich arian, a allai eu helpu i:

- talu biliau i chi
- talu eich morgais neu rent
- talu am eich gofal, a
- buddsoddi arian i chi.

Gallant hefyd:

- hawlio budd-daliadau ar eich rhan
- llofnodi neu derfynu tenantiaeth rhent i chi
- prynu a gwerthu eich eiddo, a
- trefnu atgyweiriadau ar gyfer eich eiddo.

Gallwch ei gwneud yn glir yn eich atwrneiaeth pryd yr hoffech i benderfyniadau gael eu gwneud ar eich rhan ddechrau (gweler t12).

Pethau i'w hystyried

- Dim ond os oes gennych alluedd meddyliol y gallwch wneud atwrneiaeth. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi allu gwneud penderfyniadau drosoch eich hun. Gweler **moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/long-term-care/setting-up-a-power-of-attorney**
- Mae'n llawer anoddach a drutach i rywun eich helpu gyda'ch arian a'ch eiddo os ydych chi eisoes wedi colli galluedd meddyliol.
- Heb atwrneiaeth, ni all eich priod, teulu na ffrindiau wneud penderfyniadau ar eich rhan.
- Meddyliwch yn ofalus am pwysydych chi'n ei ddewis i reoli eich materion ac i drafod eich dymuniadau gyda nhw.

Dewis rhywun i fod yn atwrnai i chi

Gall atwrnai wneud penderfyniadau ar eich rhan, gan gynnwys beth i'w wneud â'ch arian a'ch eiddo. Felly dewiswch rywun rydych chi'n ymddiried ynddo'n llwyr yn unig.

Pwy ddylwn i ei ddewis i fod yn atwrnai i mi?

Mae'n bwysig dewis rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda ac yn ymddiried ynddo. Gallent fod:

- eich gŵr, gwraig neu bartner
- perthynas
- ffrind.

Rhaid i chi benodi rhywun sy'n 18 oed neu'n hŷn ac sydd â'r galluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Fe ddylent:

- bod yn barod i weithredu ar eich rhan
- gallu rheoli eu harian eu hunain yn dda
- bod yn ddigon hyderus i wneud penderfyniadau er eich lles gorau
- cael digon o amser i ddelio ag unrhyw broblemau sy'n codi
- eich cefnogi i wneud eich penderfyniadau eich hun
- ystyried eich dymuniadau a'ch teimladau.

Byddwch yn ofalus wrth ddewis rhywun sy'n hŷn na chi. Flynyddoedd o nawr, efallai nad nhw yw'r person gorau i weithredu ar eich rhan oherwydd eu problemau iechyd eu hunain. Gweler [alzheimers.org.uk/get-support/legal-financial/who-choose-attorney](https://www.alzheimers.org.uk/get-support/legal-financial/who-choose-attorney)

A allaf ddewis gweithiwr proffesiynol i fod yn atwrnai i mi?

Os nad ydych chi eisiau dewis rhywun arall fel eich atwrnai, gallwch ofyn i weithiwr proffesiynol fel:

- cyfreithiwr, neu
- gyfrifydd.

Mae hyn yn ddefnyddiol os oes gwrthdaro teuluol neu os nad oes unrhyw un addas i weithredu ar eich rhan.

Mae gweithwyr proffesiynol yn codi tâl am eu hamser, felly trafodwch gostau a manylion gyda nhw bob amser cyn sefydlu atwrneiaeth. Mae pethau i'w hystyried yn cynnwys:

- y risg y bydd eu busnes yn mynd i'r wal
- pryd y gallent roi'r gorau i ymarfer neu ymddeol.

Gallai penodi mwy nag un atwrnai leihau'r risgiau hyn, ond gallai hyn fod yn ddrrud.

Faint o atwrneiod sydd eu hangen arnaf?

Gallwch ddewis mwy nag un person i fod yn atwrnai i chi. Gall hyn helpu:

- os na all un ei wneud mwyach
- i gael mwy o bobl rydych chi'n ymddiried ynddynt, a
- lledaenu'r gwaith.

Os ydych yn penodi mwy nag un person, gallwch ddewis iddynt weithredu:

- **Ar y cyd** – rhaid iddynt bob amser wneud penderfyniadau gyda'i gilydd. Os bydd un ohonynt yn marw, byddai'r atwrneiaeth yn dod yn annilys – oni bai eich bod wedi penodi rhywun i gymryd ei le.
- **Ar y cyd ac yn unigol** – gallant wneud penderfyniadau gyda'i gilydd neu'n unigol. Os bydd un ohonynt yn marw, byddai'r atwrneiaeth yn dal yn ddilys.
- **Ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau a rhai yn unigol** – mae angen gwneud rhai penderfyniadau gyda'i gilydd. Chi sy'n dewis beth yw'r rhain pan fyddwch yn sefydlu'r atwrneiaeth.

Os na all un ohonynt weithredu ar eich rhan mwyach neu os byddant yn marw, ni fydd eich atwrneiod sy'n weddill yn gallu gwneud unrhyw un o'r penderfyniadau ar y cyd oni bai eich bod wedi penodi rhai yn eu lle.

- **Heb ei nodi** – os byddwch yn dewis dau atwrnai neu fwy ac nad ydych yn llenwi'r adran sy'n dweud sut y dylent weithredu, rhaid iddynt weithredu ar y cyd.

Siarad â rhywun am ddod yn atwrnai i chi

Mae'n bwysig siarad â'r bobl rydych yn eu dewis fel eich atwrneiod ac egluro sut yr hoffech iddynt weithredu ar eich rhan.

Mae angen i chi drafod:

- beth sydd ynghlwm
- beth rydych chi eisiau iddyn nhw ei wneud
- beth yw eich dymuniadau, a
- lle mae eich holl waith papur.

Beth os na allaf fforddio atwrneiaeth?

Os ydych ar rai budd-daliadau prawf modd, efallai y gallwch wneud atwrneiaeth am ddim – a elwir yn esemptiad.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru a Lloegr, gweler gov.uk/government/publications/applying-for-a-reduced-fee-for-your-power-of-attorney.cy. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael gostyngiad o 50% os oes gennych incwm isel.

Os ydych chi'n byw yn yr Alban, gweler publicguardian-scotland.gov.uk/meta1/fee-exemption



Gwneud atwrneiaeth arhosol yng Nghymru a Lloegr

Ewch i **gov.uk/power-of-attorney**.

Bydd y gwasanaeth ar-lein yn darparu'r ffurflenni ac yn eich arwain drwy'r broses. Gallwch hefyd lawrlwytho'r ffurflenni a'u printio i'w llenwi. Neu, gofynnwch i'r ffurflenni gael eu hanfon atoch drwy ffonio Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Gweler y manylion cyswllt ar y dudalen hon.

Mae ffi gofrestru. Gwiriwch **GOV.UK** i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd.

Rhaid llofnodi'r ffurflenni yn y drefn hon:

1. Mae angen i'r rhoddwr lofnodi.
2. Mae darparwr tystysgrifau yn cadarnhau'r penderfyniad. Rhaid i hwn fod yn rhywun sydd wedi adnabod y rhoddwr ers o leiaf ddwy flynedd neu'n weithiwr proffesiynol fel meddyg teulu neu gyfreithiwr. Ni allant fod yn berthynas. Mae llawer o feddygon teulu yn codi tua £50-£120.
3. Mae'r atwrnai penodedig yn llofnodi – mae angen tyst ar bob llofnod.

Os ydych chi am siarad â rhywun am wneud atwrneiaeth arhosol neu ofyn i'r ffurflenni gael eu hanfon atoch, cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Gweler **gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian.cy**

Gallwch e-bostio **customerservices@publicguardian.gov.uk** neu ffonio:

Ffôn: **0300 456 0300**

Relay UK (os na allwch glywed na siarad ar y ffôn): **18001 0300 123 1300**

Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Iau a Dydd Gwener, 9:30am i 5pm

Dydd Mercher, 10am i 5pm

Gwneud a chofrestru atwrneiaeth barhaus yn yr Alban

Nid yw Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn yr Alban yn darparu dogfennau safonol ar gyfer sefydlu atwrneiaeth.

Gallwch ei ysgrifennu eich hun, ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio cyfreithiwr. Gallwch chwilio am un sy'n arbenigo yn y maes hwn yng Nghymdeithas y Gyfraith yr Alban. Gweler **lawscot.org.uk/find-a-solicitor/**

Fel rhan o'r broses atwrneiaeth, bydd angen i chi hefyd gael cyfweiliad ag un o'r canlynol:

- cyfreithiwr wedi'i gofrestru i ymarfer y gyfraith yn yr Alban
- aelod ymarferol o Gyfadran yr Eiriolwyr
- meddyg cofrestredig yn y DU sydd â thrwydded i ymarfer.

Mae hyn i gadarnhau eich bod chi'n deall beth rydych chi'n ei wneud. Yna byddant yn cwblhau tystysgrif galluedd, sy'n ffurfio rhan o'ch dogfen atwrneiaeth.

Pan fydd wedi'i llunio, mae angen i chi (neu'ch cyfreithiwr) gofrestru eich dogfen atwrneiaeth gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae ffi gofrestru. Edrychwch ar wefan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd.

Gweler **publicguardian-scotland.gov.uk/power-of-attorney/power-of-attorney/the-power-of-attorney-document**

Os ydych chi am siarad â rhywun am wneud atwrneiaeth barhaus, cysylltwch â Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yr Alban. Gweler **publicguardian-scotland.gov.uk/**

Gallwch e-bostio **opg@scotcourts.gov.uk** neu ffonio **0132 467 8300**.

Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9am i 5pm

Gwneud a chofrestru atwrneiaeth barhaus yng Ngogledd Iwerddon

Nid yw'n costio dim i lunio atwrneiaeth barhaus, oni bai eich bod eisiau cymorth cyfreithiwr.

Yng Ngogledd Iwerddon, gallwch ddefnyddio atwrneiaeth heb ei chofrestru – ar yr amod bod gennych alluedd meddyliol o hyd. Ond mae'n rhaid i chi ei gofrestru gyda'r Swyddfa Gofal a Diogelu cyn gynted ag y bydd eich galluedd meddyliol yn dechrau dirywio. Mae ffi gofrestru. Bydd y gost yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'ch gofynion unigol.

Er mwyn rhoi atwrneiaeth barhaus i rywun, mae angen i chi lenwi ffurflen benodol, sydd ar gael gan gyfreithiwr neu gwerthwr deunydd ysgrifennu sy'n arbenigo mewn dogfennau cyfreithiol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r ffurflen ddiweddaraf a'i llenwi'n gywir, neu ni fydd yn ddilys. Os oes gennych chi gyfreithiwr, gallant eich tywys drwy'r broses.

Ar ôl i'r ffurflen gael ei llenwi, rhaid i chi a'r tystion ei llofnodi. Mae angen i'r atwrnai(eiod) ei lofnodi hefyd, cyn na fyddwch yn gallu rheoli eich materion. Ni ddylai atwrneiod weithredu fel tystion i'w gilydd.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys copïau o ffurflenni perthnasol, ewch i'r Adran Cyfiawnder. Gweler **justice-ni.gov.uk/publications/epa-notes-and-forms**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflenni'n gywir

Mae'n bwysig cael y cais yn iawn y tro cyntaf, felly cymerwch ofal mawr i ddilyn y cyfarwyddiadau. Os gwnewch gamgymeriad, efallai y bydd eich cais yn cael ei wrthod, gan arwain at oedi a ffioedd ychwanegol i ail-ymgeisio.

Nid oes angen cyfreithiwr arnoch chi. Ond os oes gennych anghenion cymhleth neu os ydych yn ansicr o'r broses, gallech ystyried talu am gyngor proffesiynol.

Bydd teilwra'r atwrneiaeth i'ch anghenion yn fwy defnyddiol i chi a'ch atwrnai(eiod). Gallwch benderfynu pa bwerau i'w cynnwys neu i'w heithrio, gan gynnal rheolaeth dros y broses o wneud penderfyniadau.

Cymorth os oes gennych anabledd dysgu neu'n helpu rhywun sydd ag anabledd dysgu.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr ac yn cael y broses ymgeisio'n anodd, mae Mencap yn cynnig arweiniad i'ch helpu chi a'ch gofalwr i wneud cais am atwrneiaeth arhosol. Er enghraifft, os oes gennych anabledd dysgu neu awtistiaeth. Gweler y Canllaw Cefnogwyr ar atwrneiaeth arhosol eiddo a materion ariannol yn mencaptrust.org.uk/guides-lasting-power-attorney



Sefydlu atwrneiaeth arferol (cyffredinol).

Os ydych chi eisiau i rywun ofalu am eich arian am gyfnod dros dro, gallwch chi roi atwrneiaeth gyffredin iddyn nhw. Mae'n rhad ac am ddim i'w sefydlu ac nid oes angen cofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Nid oes ffurflen, ond mae angen i chi ddefnyddio'r geiriad canlynol:

Gwneir yr Atwrneiaeth Cyffredinol hwn ar y diwrnod hwn o (dyddiad) gennyf fi (enw llawn y rhoddwr) o (cyfeiriad).

Rwy'n penodi (enw llawn yr atwrnai) o (cyfeiriad) (ar y cyd) / (ar y cyd / ar y cyd ac yn unigol) i fod yn atwrnai/ atwrneiod i mi yn unol ag adran 10 o Ddeddf Atwrneiaeth 1971.

"Cofnodwyd gennyf fi fel gweithred, a chyflawnwyd."

Gellir ei defnyddio cyn gynted ag y byddwch yn ei lofnodi ac am amser penodol, er enghraifft, tra byddwch yn aros yn yr ysbyty neu pan fyddwch wedi ymestyn eich arhosiad dramor. Gwnewch yn siŵr ei bod wedi'i ysgrifennu'n glir fel eu bod yn deall yn union beth y caniateir iddynt ei wneud. Byddwch yn ymwybodol, dim ond os oes gennych alluedd meddyliol y mae'n ddilys.

Gallwch ddod o hyd i ffyrdd i rywun eich helpu i reoli eich arian yn anffurfiol. Gweler: **moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/long-term-care/help-someone-informally-with-budgeting-and-day-to-day-money**

Sut i gadw rheolaeth ar eich atwrneiaeth

Mae cymryd rheolaeth o'ch atwrneiaeth yn sicrhau bod gennych chi lais mewn pethau a bod y person cywir yn gwybod sut i weithredu ar eich rhan.

Rhowch gyfarwyddiadau ychwanegol i'ch atwrneiod

Gallwch ddewis defnyddio eich dogfen atwrneiaeth i roi cyfarwyddiadau ychwanegol i'ch atwrnai(eiod) neu i gofnodi eich dewisiadau. Gallwch wneud hyn drwy ysgrifennu llythyr dymuniadau. Nid yw'n gyfreithiol rwymol ond gall helpu i sicrhau bod eich dymuniadau'n cael eu cyflawni. Er enghraifft:

- Rhaid i'm atwrneiod ymgynghori â chynghorydd ariannol cyn gwneud buddsoddiadau dros £10,000.
- Hoffwn i fy anifeiliaid anwes fyw gyda mi cyhyd â phosibl. Os byddaf yn mynd i gartref gofal, hoffwn fynd â nhw gyda mi.

Gallwch hefyd siarad â'ch cyfreithwyr ac egluro sut yr hoffech iddyn nhw weithredu ar eich rhan. Yna bydd eich atwrneiod yn rhydd i wneud penderfyniadau y maent yn eu hystyried yn gywir.

Cyfyngu ar bŵer eich atwrnai

Gallwch gyfyngu ar awdurdod yr atwrnai(eiod) drwy roi amodau yn yr atwrneiaeth.

Er enghraifft, gallwch ofyn na all eich atwrnai(eiod) weithredu nes:

- rydych yn colli galluedd meddyliol, neu
- mae'r atwrneiaeth wedi'i chofrestru.

Wrth feddwl am ba bwerau i'w rhoi, mae angen i chi feddwl am y tymor byr a'r tymor hwy.

Dewiswch atwrnai wrth gefn

Gallwch ddewis atwrnai wrth gefn i gymryd drosodd y gwaith o wneud penderfyniadau ar eich rhan, pe bai un o'r atwrneiod 'gwreiddiol' yn ymddiswyddo neu'n marw.

Mae dewis atwrnai amnewid yn amddiffyn rhag canslo'r atwrneiaeth, os na all yr atwrneiod gwreiddiol weithredu mwyach.

Mae gan atwrneiod amnewid yr un lefel o awdurdod â'r atwrneiod maen nhw'n eu disodli. Fel arfer maen nhw'n ymyrryd cyn gynted ag y bydd un o'ch atwrneiod gwreiddiol yn rhoi'r gorau i weithredu ar eich rhan.

Pryd mae atwrneiaeth yn dod i ben?

Bydd atwrneiaeth yn dod i ben os:

- mae gennych alluedd meddyliol o hyd ac yn penderfynu dod â hi i ben
- eich partner yw eich atwrnai a'ch bod yn ysgaru neu'n diddymu'ch partneriaeth sifil – oni bai eich bod wedi nodi y gallant barhau i weithredu ar eich rhan
- mae eich atwrnai yn mynd yn fethdalwr neu'n ymrwymo i Orchymyn Rhyddhau Dyled (DRO)
- mae'r atwrnai'n penderfynu nad ydyn nhw eisiau bod yn un mwyach ac nad oes gennych chi atwrnai enwebedig arall
- rydych chi'n marw
- mae'r atwrnai'n marw neu'n colli galluedd meddyliol ac nid oes atwrnai arall
- mae'r llys yn penodi rhywun arall i wneud penderfyniadau.

Dysgu rhagor am sut i ddod ag atwrneiaeth i ben:

Yng Nghymru a Lloegr, gweler **gov.uk/power-of-attorney**

Yn Yr Alban, gweler **publicguardian-scotland.gov.uk/power-of-attorney/registration/ending-a-power-of-attorney**

Yng Ngogledd Iwerddon, gweler **justice-ni.gov.uk/articles/information-enduring-powers-attorney-epa**

Beth i'w wneud ag atwrneiaeth

Unwaith y bydd atwrneiaeth wedi'i chofrestru, dyma beth i'w wneud nesaf.

Cadwch hi mewn lle diogel

Gallai hwn fod yn fan diogel gartref, gyda rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo neu gyda'ch cyfreithiwr. Gallwch wneud rhestr o'ch asedau mewn ffeil y gall eich atwrnai neu atwrneiod ei defnyddio i wneud penderfyniadau ariannol.

Rhoi gwybod i'ch atwrneiod

Gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n gwybod ble mae'r atwrneiaeth wedi'i storio a sut i gael mynediad ati.

Meddwl am hygyrchedd

Allwch chi a'ch atwrneiod gael yr LPA yn hawdd pan fo angen? Os yw gyda'ch cyfreithiwr, a fyddan nhw'n gallu cael mynediad ati y tu allan i oriau swyddfa?

Gwrio am fynediad digidol

Os ydych chi'n byw yng Nghymru neu Loegr, ac wedi cofrestru atwrneiaeth ar ôl 1 Ionawr 2016, gall eich atwrneiod gael allwedd actifadu a gweld yr atwrneiaeth barhaol. Gweler gov.uk/manage-lasting-power-attorney/use-lasting-power-of-attorney

Rhoi gwybod i'ch banc a'ch darparwyr

Cofrestrwch atwrneiaeth gyda banciau a darparwyr eraill, fel eich cwmni ynni, ymlaen llaw. Efallai y bydd yn cymryd peth amser i gael mynediad. Gall gofynion amrywio rhwng banciau.

Os bydd darparwr yn gofyn i chi anfon eich dogfennau gwreiddiol, gofynnwch a allwch chi anfon copi digidol, wedi'i sganio yn lle hynny.

Gallech chi hefyd wirio a fyddant yn derbyn copi ardstyiedig – lle bydd banc neu gyfreithiwr yn copïo'ch copi gwreiddiol a'i stampio i ddweud ei fod yn gopi cywir.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru a Lloegr, mae gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus offeryn ar-lein sy'n caniatáu i atwrneiod greu cod mynediad fel y gall sefydliadau weld yr atwrneiaeth barhaol.

Os oes angen help arnoch i ddysgu sut i gofrestru atwrneiaeth gyda'ch banc neu help i ddewis banc ar gyfer atwrneiaeth, gweler moneysavingexpert.com/banking/best-banks-for-power-of-attorney/#existing

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, gallwch ddefnyddio atwrneiaeth barhaus heb ei chofrestru tra bod gennych alluedd meddyliol. Ond rhaid ei gofrestru gyda'r Swyddfa Gofal ac Amddiffyn os yw eich galluedd meddyliol yn dechrau dirywio.

A fyddaf yn gallu newid fy nymuniadau yn fy atwrneiaeth?

Cyn belled â bod gennych chi alluedd meddyliol o hyd, gallwch chi:

- newid neu ddiwygio'r hyn sydd yn eich atwrneiaeth
- ychwanegu neu ddileu'r pwerau rydychwedi dewis eu rhannu, neu
- newid pwy yw'r atwrneiod.

(Gweler *Gwneud newidiadau i'ch atwrneiaeth*, tudalen 15)

Gwneud newidiadau i'ch atwrneiaeth

Mae'n bwysig nad ydych chi'n gwneud newidiadau i'r ddogfen atwrneiaeth ei hun, oherwydd gallai hyn ei gwneud yn annilys.

Rhoi gwybod am newidiadau i enw neu gyfeiriad

Os byddwch chi neu'ch atwrnai yn newid enw neu gyfeiriad, rhaid i chi ddweud wrth:

- **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr
- **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yr Alban** os ydych yn byw yn yr Alban
- **Y Swyddfa Gofal ac Amddiffynos** ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon.

Yng Nghymru a Lloegr, os ydych yn dymuno cofrestru i ddefnyddio'ch atwrneiaeth arhosol ar-lein, gwiriwch ddwywaith fod cyfeiriadau'r atwrneiod yn gywir. Mae hyn oherwydd y bydd codau actifadu i weld yr atwrneiaeth yn cael eu hanfon i'r cyfeiriad cyfredol ar gofnod yr atwrneiaeth arhosol.

Rhaid i chi ddarparu prawf o'ch enw newydd neu enw newydd yr atwrnai fel:

- copi o'r dystysgrif priodas, neu
- gweithred newid enw.

Os yw'n newid cyfeiriad, nid oes angen i chi anfon unrhyw ddogfennau ategol.

Os bydd un o'ch atwrneiod yn marw

Rhaid i chi hysbysu:

- **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr
- **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yr Alban** os ydych yn byw yn yr Alban
- **Y Swyddfa Gofal ac Amddiffynos** ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd angen i chi hefyd anfon copi ardystiedig o'r dystysgrif marwolaeth ac atwrneiaeth.

Os bu farw'r atwrnai y tu allan i'r DU, cynhwyswch gopi o'r dystysgrif marwolaeth.

Bydd eich atwrneiaeth yn cael ei chanslo os:

- yr atwrnai a fu farw oedd eich unig atwrnai, neu
- mae atwrnai yn marw ac roedd rhaid i'r atwrneiod wneud yr holl benderfyniadau gyda'i gilydd (a elwir yn gweithredu 'ar y cyd').

Bydd eich atwrneiaeth yn cael ei diweddarau:

- os yw atwrnai'n marw ac roedd yr atwrneiod yn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau ar eu pen eu hunain (a elwir yn gweithredu 'ar y cyd ac yn unigol').

Rhaid i chi gynnwys cyfeiriad dychwelyd pan fyddwch yn anfon eich atwrneiaeth yn ôl.

Ychwanegu neu ddileu atwrnai

Cyn belled â bod gennych chi alluedd meddyliol o hyd, gallwch chi dynnu atwrnai ar unrhyw adeg.

Os ydych chi eisiau ychwanegu atwrnai arall, bydd angen i chi ddod â'ch atwrneiaeth i ben a gwneud un newydd.

Canslo atwrneiaeth

Cyn belled â bod gennych alluedd meddyliol o hyd, gallwch ganslo atwrneiaeth ar unrhyw adeg.

Am gyfarwyddiadau ar ddiwygio, tynnu atwrnai neu derfynu atwrneiaeth lle rydych chi'n byw, gweler moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/long-term-care/change-power-of-attorney



Beth i'w wneud os ydych chi'n cael problemau gydag atwrnai

Rhaid i'ch atwrnai:

- eich cefnogi i wneud eich penderfyniadau eich hun
- gwneud pob penderfyniad er eich lles gorau
- ystyried eich dymuniadau a'ch teimladau.

Os na fyddant yn gwneud y pethau hyn, gallwch roi gwybod am eich pryderon.

Sut i roi gwybod am bryderon os ydych chi'n byw yng Nghymru neu Loegr

Gallwch:

- llenwi'r ffurflen codi pryder yn **gov.uk/adrodd-pryder-am-atwrnai-dirprwy-warcheidwad**
- ysgrifennu at, e-bostio neu ffonio Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Yn eich adroddiad, cofiwch gynnwys:

- eich manylion – fel eich enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni a'ch manylion cyswllt
- y dyddiad y gwnaethoch sylwi ar y pryder gyntaf
- unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r pryder – er enghraifft, cofnodion ariannol

- yr hyn rydych chi'n ei wybod am alluedd meddyliol y rhoddwr. Dyma'r person a wnaeth yr atwrneiaeth. Os ydych chi'n adrodd ar eu rhan, cynhwyswch gopiâu o unrhyw adroddiadau galluedd meddyliol neu enwau pwylallai fod â'r rhain.

Os nad oes gennych yr holl wybodaeth hon, gallwch chi roi gwybod am bryder o hyd.

Ar ôl i chi wneud eich adroddiad, bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gwirio a oes ganddi'r awdurdod cyfreithiol i ymchwilio.

Cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
opg.safeguardingunit@publicguardian.gov.uk

Ffôn: **0300 456 0300**
Relay UK (os na allwch glywed na siarad ar y ffôn):
18001 0300 123 1300

Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm
Dydd Mercher, 10am i 5pm

Office of the Public Guardian,
PO Box 16185, Birmingham, B2 2WH

Sut i roi gwybod am bryderon os ydych chi'n byw yn yr Alban

Gallwch:

- llenwi'r ffurflen atgyfeirio yn **publicguardian-scotland.gov.uk**
- ysgrifennu at, e-bostio neu ffonio Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yr Alban.

Mae angen i chi esbonio pam eich bod chi'n credu bod eich eiddo a/neu faterion ariannol/eiddo a/neu faterion ariannol y rhoddwr mewn perygl.

Cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn yr Alban **opg-inv@scotcourts.gov.uk**

Ffôn: **01324 678300**

a gwasgu opsiwn 1

Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9am i 5pm

The Office of the Public Guardian,
Hadrian House, Callendar Business
Park, Callendar Road, Falkirk,
FK1 1XR

Sut i roi gwybod am eich pryderon os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon

Gallwch ysgrifennu at, anfon e-bost at neu ffonio'r Swyddfa Gofal ac Amddiffyn.

Mae angen i chi esbonio pam eich bod chi'n credu bod eiddo a/neu faterion ariannol y rhoddwr mewn perygl.

Cysylltwch â'r Swyddfa Gofal ac Amddiffyn **ocp@courtsni.gov.uk**

Ffôn: **0300 200 7812**

Dydd Llun i Ddydd Iau, 9am – 1pm

Room 2.2A, Second Floor, Royal
Courts of Justice, Chichester Street,
Belfast, BT1 3JF, United Kingdom

Ystyriwch gymorth gyfreithiol

Os oes angen help arnoch i fynd i'r afael â phryderon gyda'ch atwrnai penodedig, ystyriwch dalu am gyfreithiwr.

Gallwch ddod o hyd i gyfreithiwr cymwys yn eich ardal trwy chwilio'r cyfeirlyfrau a ddarperir gan gymdeithasau cyfreithiol y DU:

- Yng Nghymru a Lloegr, gweler **solicitors.lawsociety.org.uk**
- Yn yr Alban, gweler **lawscot.org.uk/for-the-public**
- Yng Ngogledd Iwerddon **lawsoc-ni.org/solicitors**

Sut i nodi arwyddion o gam-drin ariannol

Os ydych chi'n pryderu bod atwrnai yn rheoli eich gwariant chi neu wariant rhoddwr, mynediad at arian parod, asedau a chyllid, gallai hyn fod yn arwydd o gam-drin ariannol.

Cam-drin ariannol yw pan fydd rhywun yn:

- tynnu arian allan neu'n cael credyd yn eich enw heb eich gwybodaeth na'ch caniatâd
- gwneud i chi drosglwyddo rheolaeth dros eich cyfrifon
- codi arian o'ch pensiwn neu sieciau eraill heb eich caniatâd
- ychwanegu eu henw at eich cyfrif
- gofyn i chi newid eich ewyllys
- cymryd eich arian i brynu'ch siopa neu dalu eich biliau, ond nid yw hyn yn digwydd
- eich atal rhag gweld ffrindiau a theulu.

Os ydych yn poeni eich bod chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn ddioddefwr cam-drin ariannol, gweler

moneyhelper.org.uk/cy/family-and-care/talk-money/financial-abuse-spotting-the-signs-and-leaving-safely

Cysylltiadau defnyddiol

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Evch i ni yn moneyhelper.org.uk/cy

Neu cysylltwch â ni drwy:

Ffôn

Arweiniad Arian a Phensiynau DU:

0800 011 3797

os ydych chi y tu allan i'r DU:

+44 20 7932 5780

Llun – Gwe 9am i 5pm

Ar-lein

moneyhelper.org.uk/cy/contact-us

Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth: moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

customerservices@publicguardian.gov.uk

Ffôn: **0300 456 0300**

Relay UK (os na allwch glywed na siarad ar y ffôn): **18001 0300 123 1300**

gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian.cy

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn yr Alban

opg@scotcourts.gov.uk

Ffôn: **0132 467 8300**

Dydd Llun i Ddydd Gwener 9am–5pm
publicguardian-scotland.gov.uk

Adran Cyfiawnder Gogledd Iwerddon

justice-ni.gov.uk/publications/epa-notes-and-forms

Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

[illegible]



Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian ac mae hefyd ar gael yn Saesneg. I weld ein cyfres lawn o ganllawiau ac i archebu copïau ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides**

Cymraeg

Cysylltu â ni

Canllawiau arian a phensiynau **0800 011 3797**

Llun – Gwe 9am i 5pm

Relay UK **18001 0800 011 3797**

Llun – Gwe 9am i 5pm

Ar-lein **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us**

**Helpwr
Arian**



Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

Fformatau hygyrch

Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2026). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© **HelpwrArian** Ebrill 2026

Cyf: HTMARPOA_Apr26_Ed1_Welsh